

# Adroddiad Cynllun yr Iaith Gymraeg, Patagonia 2020

Ionawr - Rhagfyr 2020

# CYNNWYS

1. Trosolwg o'r Cynllun
2. Strwythur a Llywodraethu
3. Effaith Covid-19
4. Ysgoloriaethau
5. Holiadur Rhanddeiliaid

Atodiadau - Adroddiadau'r Swyddogion

# 1 Trosolwg o'r Cynllun

Sefydlwyd Cynllun yr Iaith Gymraeg ym 1997 gyda'r pwrpas o hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, Yr Ariannin.

Bob blwyddyn, mae tri Swyddog Datblygu Iaith o Gymru yn treulio cyfnod o ddeng mis - rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr - yn gweithio ym Mhatagonia. Maent yn datblygu'r iaith mewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg drwy addysgu'n ffurfiol mewn dosbarthiadau i bobl ifanc ac oedolion, gan addysgu dosbarthiadau mewn tair ysgol gynradd ddwyieithog, ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Sbaeneg a thrwy gyfrwng gweithgareddau cymdeithasol anffurfiol. Mae Cydlynnydd Dysgu parhaol o Gymru sy'n gyfrifol am ansawdd y dysgu hefyd wedi'i lleoli ym Mhatagonia.

Agwedd arall ar y prosiect yw'r rhwydwaith o diwtoriaid Cymraeg sydd wedi'u lleoli yn Nhalaith Chubut. Mae nifer o'r tiwtoriaid lleol yma yn gweithio i'r Cynllun ar ôl iddyn nhw eu hunain fynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Trwy roi cyfle i unigolion ymgeisio am ysgoloriaethau a chael cyfleoedd i ymweld â Chymru i fynychu cyrsiau Cymraeg, mae'r Cynllun yn cynorthwyo i gynnal safonau addysgu, gan sicrhau bod y fethodoleg addysgu ddiweddaraf ar waith ym Mhatagonia.

Cytundeb grant ydy Cynllun yr Iaith Gymraeg Patagonia ac mae'n cael ei weithredu gan British Council Cymru mewn cydweithrediad â Phwyllgor yr Iaith Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, British Council Cymru, Cymdeithas Cymru Ariannin, Urdd Gobaith Cymru, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae'r Cynllun ar waith mewn tri dalgyrch yn nhalaith Chubut: yr Andes, Gaiman a Threlew, gan gynnig amrywiaeth eang o gyrsiau o lefel dechreuwyr i gyrsiau gloywi a sesiynau siarad ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl. Hefyd, cynhelir gwersi yn y sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac ym maes oedolion o dan nawdd y cynllun.

Mae Swyddogion Datblygu'r Iaith Gymraeg a gyflogir gan y Cynllun yn addysgu amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys cyrsiau Blasu, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd. Hyd at yn ddiweddar, defnyddiwyd cyrsiau oedolion wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destunau Sbaeneg a Chymraeg – cyrsiau a baratowyd gan Dysgu Cymraeg Caerdydd, Prifysgol Caerdydd. Mae'r Cynllun bellach wedi dechrau defnyddio cyrsiau newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn y man, bydd y cyrsiau i gyd yn cael eu cyfieithu a'u haddasu ar gyfer cyd-destun Y Wladfa.

Mae Pwyllgor y Cynllun yn cydnabod cyfraniad hael a phwysig y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i waith y Cynllun ym Mhatagonia.

Mae Llywodraeth Cymru, British Council Cymru a Chymdeithas Cymru-Ariannin yn cyd-ariannu'r prosiect hwn, sy'n rhan o'r Rhaglen Addysg Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Mae cefnogaeth i waith y Cynllun yn dod hefyd o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prifysgolion Caerdydd, Aberystwyth a Bangor yn ogystal ag Urdd Gobaith Cymru.

Nid oes modd er hynny, i gyllid gymharol fechan y Cynllun dalu am bob elfen o'r gwaith yn cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn Y Wladfa. Mae cyfraniadau ariannol ac ymarferol ein partneriaid yn hynod bwysig er mwyn gallu darparu ystod eang o ddosbarthiadau, gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg yn nhalaith Chubut.

Mae Cynllun Cymraeg Patagonia yn talu am dri Swyddog Datblygu'r Gymraeg sy'n gweithio yn Y Wladfa am ddeng mis bob blwyddyn. Yn ychwanegol, defnyddir rhan o gyllid y Cynllun i dalu am wasanaeth y tiwtoriaid lleol sy'n addysgu'r dosbarthiadau i oedolion yn ogystal â dosbarthiadau yn yr ysgolion dwyieithog.

### **Ysgol y Cwm**

Ysgol ddwyieithog Gymraeg-Sbaeneg yn yr Andes yw Ysgol y Cwm. Fe agorwyd yr ysgol yn 2016 pan groesawyd 50 o blant meithrin i'w dosbarthiadau newydd. Yn y pen draw, bydd lle i 200 o blant yn yr ysgol.

### **Ysgol yr Hendre**

Sefydlwyd Ysgol yr Hendre yn 2006, gyda 22 o ddisgyblion. Erbyn hyn, mae dros 150 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ac yn derbyn addysg ddwyieithog Gymraeg-Sbaeneg.

### **Ysgol y Gaiman**

Agorwyd yr ysgol yn 1993 a rhoddwyd statws ysgol swyddogol iddi yn 2015. Y llynedd, gwelwyd canran o ddisgyblion blwyddyn 6 yn gadael yr ysgol am y tro cyntaf.

### **Coleg Camwy**

Ysgol uwchradd yn y Gaiman, lle dysgir Cymraeg fel ail iaith. Mae nifer o ddisgyblion yr ysgolion cynradd dwyieithog yn mynychu Coleg Camwy.


### **Ysgolion Sbaeneg lle mae'r Gymraeg yn cael ei chefnogi, trwy gyfrwng gwersi neu glybiau allgyrsiol**

	<b>Ysgol/sefydliad</b>	<b>Ardal</b>
	Escuela 24	Esquel
	Escuela N° 61 Bryn Gwyn	Gaiman
	Ysgol Aliwen	Dyffryn Camwy

## Canolfannau sy'n cynnig gwersi i oedolion

	Ysgol/sefydliad	Ardal
	Coleg Camwy	Dyffryn Camwy
	Canolfan Casa Toschke	Porth Madryn
	Canolfan Trelew	Trelew
	Canolfan Dolavon	Dolavon
	Canolfan Esquel	Esquel

## 2 Strwythur a Llywodraethu



Gweithredir y Cynllun gan British Council Cymru o fewn y Rhaglen Addysg Ryngwladol. Rheolir y tri Swyddog gan y Cydllynydd Addysgu, gyda'r Cydllynydd Tiwtoriaid Lleol yn goruchwyllo'r rhwydwaith o Diwtoriaid Lleol.

### Y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn rhannu ei wybodaeth, ei arbenigedd a'i rwydweithiau er mwyn datblygu gwaith y Cynllun ac mae'n cefnogi British Council Cymru mewn ffyrdd ymarferol, gan wneud y canlynol yn benodol:

- Datblygu nodau'r Cynllun drwy gefnogi'r gwaith o weithredu'r prosiect.

- Sicrhau bod British Council Cymru yn ymwybodol o ddatblygiadau ym maes dysgu ac addysgu Cymraeg yng Nghymru a Phatagonia.
- Cynghori British Council Cymru ar gyflawni elfennau allweddol o'r Cynllun.
- Cyflawni tasgau penodol fel y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru (fel y bo'n briodol), British Council Cymru a'r Pwyllgor.

Mae gweithgareddau'r Pwyllgor yn cynnwys:

- helpu i hyrwyddo cyfleoedd a gynigir gan y Prosiect i ysgolion ac unigolion;
- helpu i lunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer swyddi addysgu ym Mhatagonia;
- datblygu meini prawf ar gyfer swyddi addysgu ym Mhatagonia, eistedd ar y panel cyfweld a chynghori ar benodiadau mewn ymgynghoriad â British Council Cymru;
- helpu i recriwtio unigolion i swyddi eraill fel y cytunwyd ac yn unol â chanllawiau corfforaethol British Council Cymru, yn cynnwys lleoli myfyrwyr sy'n dod o Gymru ac arsylwyr o Batagonia;
- helpu i ddod o hyd i lety ar gyfer ymwelwyr sy'n dod i Gymru o Batagonia;
- helpu i feithrin cysylltiadau rhwng ysgolion yng Nghymru a Phatagonia;
- trefnu i'r Pwyllgor gwrdd bedair gwaith y flwyddyn.

## Aelodau'r Pwyllgor

<b>Pwyllgor Cynllun yr Iaith Gymraeg</b>	
Luned Gonzalez	Cydlynnydd Tiwtoriaid Lleol
Clare Whitehouse	Cydlynnydd Addysgu
Marc Philips	Cymdeithas Cymru-Ariannin
Dr Iwan Rees	Prifysgol Caerdydd
Eryl Williams	Yr Urdd
Eiry Miles	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Rebecca Pugh	Llywodraeth Cymru
Dr Walter Ariel Brooks	British Council Cymru

Ym mis Mawrth, gadawodd Rhisiart Arwel ei rôl fel Monitor Academaidd. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau'r Monitor Academaidd i British Council Cymru, gyda'r Ymgynghorydd yn cadeirio'r Pwyllgor dros dro am flwyddyn. Yn yr un modd, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o ysgrifennu'r

adroddiad blynyddol i Ymgynghorydd British Council Cymru, gydag aelodau'r Pwyllgor yn cyfrannu at yr adroddiad.

Trefnwyd cyfarfod pythefnosol gyda'r tri Swyddog, y Cydlynnydd Addysgu, y Cydlynnydd Tiwtoriaid Lleol a'r Ymgynghorydd, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Cynllun. Gofynnwyd hefyd i'r Swyddogion gyflwyno adroddiad chwarterol i British Council Cymru, er mwyn bwydo i mewn i adroddiad llawn y Rhaglen Addysg Ryngwladol.

### **Swyddogion Datblygu'r Iaith Gymraeg 2020**

Penodwyd tri Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020, gyda'r tri yn teithio i'r Ariannin ym mis Chwefror 2020.

Anwen Harris: Athrawes gynradd yn arbenigo yn y Cyfnod Sylfaen. Lleolwyd yn Nyffryn Camwy.

Sally Ann Nicholls: Arbenigo mewn addysg uwchradd, Cymraeg ail-iaith (CA3 - CA5), gan gymryd secondiad o'i rôl fel Swyddog Iaith gyda'r Mudiad Meithrin. Lleolwyd yn Esquel yn yr Andes.

Marian Broschott: Tiwtor Cymraeg i Oedolion. Lleolwyd yn Nyffryn Camwy i addysgu o fewn y sector oedolion ac mewn ysgolion uwchradd.

## **3 Effaith Covid-19**

### **Addysgu**

Swyddogion yn cyrraedd Patagonia

Ym mis Chwefror 2020, teithiodd y tri Swyddog Datblygu Iaith o Gymru i Batagonia i ddechrau eu lleoliadau addysgu o 10 mis. Er bod newyddion am Covid-19 yn y cyfryngau, nid oedd yn glir faint o fygythiad yr oedd yn ei beri yn rhyngwladol. Parhaodd y tri Swyddog i integreiddio yn y cymunedau yr oeddent i weithio gyda nhw a dechrau addysgu'r Gymraeg yn llawn amser yn unol â'u hamserlenni.

Wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaenau, daeth hi'n amlwg bod y sefyllfa Covid-19 yn ddifrifol a cafodd y swyddogion gynnig hedfan yn ôl i'r Deyrnas Unedig gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

Penderfynodd Anwen a Sally, ynghyd â nifer o athrawon yr ysgolion, dderbyn y cynnig ac erbyn diwedd mis Mai, roedd y ddwy yn hunanynysu yn ôl yng Nghymru. Erbyn hyn, roedd yr ysgolion ar gau ar gyngor y llywodraeth a gwaharddwyd pob gwers wyneb yn wyneb i oedolion.

Roedd symud gwersi i fformat ar-lein yn her, nid yn unig i'r swyddogion a'r twtoriaid lleol, ond i'r dysgwyr hefyd gan fod seilwaith y rhyngwyd heb ei ddatblygu lawer yn ardal Chubut. Mae nifer o ddysgwyr yn byw tu allan i'r prif drefi, ac felly mae llawer ohonynt yn dibynnu ar ddata ffôn symudol er mwyn cysylltu i'r rhyngwyd. Oherwydd cyfyngiadau eraill yn cynnwys diffyg sgiliau TGCh, prinder caledwedd priodol yn y cartref a goblygiadau gwaith a gofal plant, collwyd nifer o

ddysgwyr wrth symud gwersi ar-lein. Fodd bynnag, sylweddolwyd bod nifer o ddysgwyr newydd o ardaloedd y tu allan i Chubut yn cofrestru.

*Mae'r map isod yn dangos lleoliadau'r dysgwyr ar y cyrsiau i oedolion, a ymunodd â'r gwersi ar-lein gyda'r swyddogion.*



### Rhestr o leoliadau dysgwyr (oedolion) 2020

#### Yr Ariannin

- Bahia Blanca
- Buenos Aires
- Camwy
- Cipolletti
- Comodoro Rivadavia
- Córdoba
- Esquel
- Gaiman
- Mar del Plata
- Mendoza
- Playa Union
- Puerto Madryn
- Rawson
- Salta
- Trevelin
- Nequen

#### Yn Rhyngwladol

- Yr Almaen
- Uruguay
- Mecsico

Cynhaliwyd gwersi i oedolion ar blattform Zoom, gyda nifer o ddysgwyr yn ei ddefnyddio am y tro gyntaf. Wedi iddynt ddod i arfer defnyddio Zoom, cyflwynodd y swyddogion blattformau ac apiau ychwanegol i hwyluso'r dysgu ac addysgu, gan gynnwys Kahoot, Quizlet a Flipgrid. Roedd Marian a Sally yn ddyfeisgar iawn yn ystod y cyfnod clo, ac yn ennyn diddordeb y dysgwyr drwy gynnal sesiynau anffurfiol, gan gynnwys clybiau darllen a nosweithiau ymarfer sgiliau llafar, gan annog dysgwyr i recordio fideos yn son am brofiadau dysgu yn ystod y cyfnod clo.

Treuliodd Marian, ynghyd ag aelodau'r Pwyllgor a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, amser yn addasu cyrsiau'r Ganolfan ar gyfer dysgwyr Patagonia.



Enghraifft o amserlen gwersi oedolion - Marian Brosschot, Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg

	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	
8-9.00						
9-10.00	<p style="text-align: center;"><b>PARATOI</b>  <i>paratoi gwersi, addasu adnoddau, cyfieithu, ffilmio, trefnu gweithgareddau menter, marcio gwaith a.y.y.b</i></p>					Cyfarfod Cyngor Prydeinig
10-11.00						
11-12.00						
12-13.00		Coleg Camwy MYNEDIAD 12.30-1.30pm			<p style="text-align: center;"><b>PARATOI</b>  <i>paratoi gwersi, addasu adnoddau, cyfieithu, ffilmio, trefnu gweithgareddau menter, marcio gwaith a.y.y.b</i></p>	
13-14.00						
14-15.00			Coleg Camwy SYLFAEN 2-3pm			
15-16.00						
16-17.00	Coleg Camwy CANOLRADD 4-5pm				Sesiynau 1-1	
17-18.00	MYNEDIAD 1 5.30-7pm		MYNEDIAD 1 5.30-7pm	MYNEDIAD 1 5-6.30pm	MYNEDIAD + SYLFAEN Madryn 6-8.30pm	
18-19.00		Paned a Sgwrs/Sesiwn Sgwrsio				
19-20.00	UWCH 7-9pm	UWCH 7-8pm	MYNEDIAD 1 7-8.30pm	MYNEDIAD 2 7-8.30pm		
20-21.00						

Y prif ddull o gynnal gwersi yn yr ysgolion oedd trwy gyfrwng apiau Google. Roedd Anwen Harris yn cydweithio'n bennaf ag Ysgol y Gaiman, ond hefyd yn cynnal sesiynau gyda dysgwyr Coleg Camwy ac yn darparu rhai gwersi i oedolion. Ar gyfer y gwersi yn Ysgol y Gaiman, roedd Anwen ac athrawon yr ysgol yn defnyddio Google Classrooms o ddydd Llun i ddydd Gwener i osod gwaith ysgrifenedig ac i ddangos clipiau fideo yn ogystal â chyflwyno adnoddau i gyd-fynd gyda'r gwaith. Byddai Anwen a'r athrawon yn marcio ac asesu'r gwaith yn wythnosol, a rhoi adborth personol i bob plentyn ar eu gwaith. Bob dydd Mawrth a dydd Iau cynhaliwyd gwersi byw ar Google Meet; dyma oedd y cyfle gorau i'r disgyblion ymarfer eu Cymraeg.

Elfen arall o waith Anwen oedd cynnal gwersi Tric a Chlic, er mwyn datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o adnabod a dysgu ffoneg llythrennau. Fel arbenigwraig yn y Cyfnod Sylfaen, penderfynodd Anwen drefnu hyfforddiant Tric a Chlic ar gyfer tri o'r athrawon yn yr ysgolion cynradd dwyieithog. Cynigiodd Peniarth hyfforddi'r athrawon yn rhad ac am ddim.



*Athrawon yr ysgolion cynradd yn derbyn hyfforddiant Tric a Chlic gan ganolfan Peniarth*

### Amserlen Anwen Harris

	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
08:00 – 09:00			Cyfarfod Staff Ysgol y Gaiman (bob yn ail wythnos)		
09:00 – 10:00	<b>Patrwm Iaith yr Wythnos (adolygu)</b> Google Classrooms Gwaith 4 oed Gwaith Titw Tomos Las	Paratoi Paratoi gwersi, gwaith menter ac addasu adnoddau	Coleg Camwy	<b>Dosbarth Plant 4 oed</b> 10:30 – 11:15	Cyfarfod Cyngor Prydeinig
10:00 – 11:00		Paned a sgwrs			
11:00 – 12:00					
12:00 – 13:00					
13:00 – 14:00	Ysgol Gymraeg Y Gaiman	Ysgol Gymraeg Y Gaiman MEET – Grŵp 1	Ysgol Gymraeg y Gaiman	Ysgol Gymraeg Y Gaiman MEET – Grŵp 1	Ysgol Gymraeg Y Gaiman MEET – Gwasanaeth canu 14:30 – 15:30
14:00 – 15:00		Ysgol Gymraeg Y Gaiman MEET – Grŵp 2		Ysgol Gymraeg Y Gaiman MEET – Grŵp 2	
15:30 – 16:00					
16:00 – 17:00		Cyfarfod Staff Ysgol y Gaiman	Plant TRELEW ZOOM	Paratoi Paratoi gwersi, gwaith menter ac addasu adnoddau HER- Clwb yr URDD	Paratoi Paratoi gwersi, gwaith menter ac addasu adnoddau
17:00 – 18:00	Cwis – 2 waith y mis. Paratoi gwaith menter.				
18:00 – 19:00			Siaradwyr Tŷ Camwy		
19:00 – 20:00				Gwaith Menter	MYNEDIAD + SYLFAEN Madryn 18:30 – 20:30
20:00 – 21:00					

## Nifer y dysgwyr

Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn niferoedd y dysgwyr o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae Covid-19 wedi cael effaith mawr ar y niferoedd o ddysgwyr yn yr ysgolion, gan fod ymyriaethau, clybiau a chyfleoedd allgyrsiol wedi diflannu, ynghyd ag athrawon o Gymru. Gyda llai o addysgwyr, mae llai o gyfleoedd. Hefyd, gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer yr oedolion oedd yn mynychu'r gwersi, ond rhaid cydnabod rôl bwysig y Swyddogion a Thiwtoriaid Lleol yn lliniaru effaith Covid-19 ar nifer yr oedolion yn y gwersi. Gwnaethpwyd hyn drwy gynnig gwersi i oedolion y tu allan i oriau gwaith a sicrhau nad oedd raid i'r dysgwyr deithio i'r ganolfan leol er mwyn cael gwersi.

	<b>Nifer yn 2019</b>	<b>Nifer yn 2020</b>
Meithrin	194	Dim data ar gael
Cynradd	615	277
Uwchradd/ coleg	423	207
Oedolion	179	139
Cyfanswm	<b>1411</b>	<b>623</b>

## Gwaith Menter

Mae'r gwaith a wneir gan y tiwtoriaid a'r athrawon lleol yn ogystal â Swyddogion Datblygu'r Cynllun yn yr ystafelloedd dosbarth yn bwysig iawn. Dyma pryd mae'r seiliau ieithyddol yn cael eu sefydlu a'r camau cyntaf yn cael eu cymryd ar y daith o ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Gan mai cyfrwng cyfathrebu yw iaith, mae angen creu cyd-destun a chyfleoedd i'w defnyddio a lleoliadau i'w siarad. Mae cyfraniad Swyddogion y Cynllun yn cymdeithasoli'r iaith yn y cymunedau yn waith pwysig dros ben, a byddai rhai yn dadlau ei fod mor bwysig â'r gwaith yn y dosbarthiadau. Yn 2008, gosodwyd amcanion Menter Patagonia sef: Rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol i normaleiddio defnydd o'r iaith mewn trawstoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol – sef ymestyn ei defnydd cymdeithasol. Dylid anelu at gynnal amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, achlysuron a gweithgareddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

- Gweithgarwch ar gyfer plant meithrin a'u rhieni. Gallai hyn fod yn gyfle i ennyn diddordeb yn y rhieni a'u cael i fynychu dosbarth Cymraeg - o leiaf un sesiwn yr wythnos.
- Gweithgareddau ar gyfer plant cynradd - chwaraeon, crefftiau, peintio a gwaith llaw, gemau, natur a'r amgylchedd, dawnsio gwerin, grŵp canu/actio, grwpiau chwarae fore Sadwrn, clybiau gwyliau, hobiau ac ati (dwy haen oedran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos).

- Gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd - Aelwyd yr Urdd, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau cymdeithasol (dwy sesiwn yr wythnos os yn bosibl).
- Gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer oedolion - cwis, sioe ffasiwn, coginio, blasu gwahanol fathau o fwydydd, grwpiau trafod neu ddadlau, grwpiau sgwrsio, grwpiau gwahanol hobïau, gwersi cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr, clybiau cerdded, seiclo, mynydda, sgïo, clwb cinio, nosweithiau llawen, sgysiau a darlithoedd, dawnsio gwerin, picnic, gwibdeithiau, nosweithiau ffilmiau ac ati.
- Gweithio'n glos â mudiadau lleol Cymreig i'w hysbrydoli - megis yr eisteddfod, cyrddau cystadleuol, y capeli.
- Ceisio ymestyn defnydd gweledol o'r Gymraeg yn lleol - y radio, yr amgueddfeydd ac ati.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y patrwm oedd bod y Swyddogion Datblygu yn rhannu eu hamser rhwng y gwaith addysgu a'r gwaith Menter.

Yn anffodus nid oedd cyfleoedd i'r Swyddogion na'r Tiwtoriaid Lleol drefnu gweithgareddau wyneb yn wyneb. Oherwydd y cyfyngiadau, defnyddiwyd adnoddau ar-lein er mwyn hybu gwaith Menter y Cynllun. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau rhithiol (gweler y tabl isod), gan ddarparu nifer o gyfleoedd i ddysgwyr y Wladfa gysylltu â siaradwyr rhugl o Gymru.


Digwyddiad	Disgrifiad
Paned a Sgwrs	Awr wythnosol o sgwrsio ar-lein. Fel arfer, bore Mawrth am 11 o'r gloch. Cymysgedd o bobl sy'n dysgu a phobl sy'n rhugl yn y Gymraeg. Pobl o Gymru yn ymuno hefyd. Sgwrsio fel grŵp mawr a rhannu'n grwpiau bach (mewn ystafelloedd) i sgwrsio o fewn grŵp llai am gyfnod. Paratoi cwestiynau neu thema bob wythnos.
Cwrw a Chlonc	Cyfle i sgwrsio yn anffurfiol gyda'r nos efo cwrw bach. Ar-lein drwy gyfrwng Zoom. Fel arfer, sgwrsio fel un grŵp mawr yn dibynnu ar niferoedd (dau grŵp os oes nifer rhy fawr i'w gynnal mewn un grŵp). Cynhelir bob pythefnos am 7 o'r gloch ar nos lau.
Ras Eirfa Fawr	Sesiwn o tua awr i ddysgwyr ar lefel Mynediad er mwyn ymarfer sgwrsio. Rhannu yn grwpiau bach a newid grwpiau 3 gwaith. Un siaradwr rhugl/lefel Uwch/o Gymru yn gwirfoddoli i helpu ym mhob grŵp. Cynhaliwyd tair sesiwn hyd yma, a bu'r ddwy sesiwn ddiwethaf ar Awst (14eg) a Medi (21ain). Paratoi cwestiynau a modelu atebion o flaen llaw.

Gwin a Sgwrs	Cyfle i sgwrsio yn anffurfiol gyda gwin bach a chysylltu gyda phobl ar draws Y Wladfa a lleoedd eraill yn yr Ariannin.
Cwisiau	Pob swyddog yn cymryd ei dro i drefnu cwis, tua dwywaith y mis. Hwyllog, themâu gwahanol, pobl newydd yn ymuno bob tro. Rhwng 15-20 o bobl yn mynychu, o Gymru a'r Ariannin.
Noson Lawen	Cynhaliwyd y digwyddiad ar y 1af o Fai, 2020. Cafwyd perfformiadau gan bobol yn Y Wladfa ac yng Nghymru gan gynnwys Gwilym Bowen Rhys ac Alejandro Jones.
Patrwm Iaith yr Wythnos	Defnyddio fideo i rannu Patrwm Iaith yr Wythnos ar y cyfryngau cymdeithasol. Annog y defnydd o batrymau brawddegau sylfaenol ac i hybu'r iaith Gymraeg ymysg dysgwyr Ysgol Gymraeg y Gaiman. Cyfle i rieni ymarfer gyda'u plant yn y cartref.
Sgwrs gyda Tedy Lewis (Zoom)	26/11/2020: Rhoddodd Tedy Lewis sgwrs dros Zoom am ei brofiadau yn byw yng Nghymru am 8 mis yn ystod y pandemig. Cyflwyniad efo lluniau a chwestiynau ar y diwedd.
Sesiwn Dysgu Cymraeg tra'n coginio	Coginio pwddin Nadolig yn fyw o dŷ te Plas y Coed, Gaiman efo Ana Chiabrando ar gyfer Dysgu Cymraeg yng Nghymru. Sesiwn fyw ar Zoom ond ar gael ar YouTube Dysgu Cymraeg hefyd.
Diwrnod S'mae/Shwmae	15/10/2020: Casglu fideos gan ddysgwyr yn cyflwyno'u hunain a'u rhannu drwy gydol y dydd ar dudalen Facebook Menter Patagonia.
Paned a Sgwrs Pan-Americanaidd	15/10/2020 a 13/11/2020: Sesiwn sgwrsio dros Zoom efo dysgwyr o amryw o wledydd yn yr Americas. Roedd y sesiwn gyntaf yn arbennig i ddechreuwr a'r ail sesiwn yn agored i bawb. Daeth 30 o bobl i'r ail sesiwn, sef dysgwyr a siaradwyr Cymraeg o Ganada, UDA, Uruguay, Mecsico, Yr Ariannin a Chymru.
Un mes de galés	Gorffennaf 2020: Mis o wersi Cymraeg dyddiol gan Marian i ddechreuwr pur (siaradwyr Sbaeneg y Wladfa) ar YouTube.
Otro mes de galés	Yr ail gyfres o 25 fideo dysgu Cymraeg i ddechreuwr. Postio un fideo y dydd drwy gydol mis Hydref a dechrau Tachwedd. Ar gael ar YouTube Menter.








<https://www.youtube.com/watch?v=70i1BrzfzRM&t=1s>

*Mis o wersi Cymraeg ar gyfer dysgwyr pur trwy gyfrwng y Sbaeneg. Roedd dros 2,000 yn gwyllo'r fideo cyntaf.*



*Sgrinlun o sesiwn Gwin a Sgwrs 18/09/2020*

SESIWN 1 – DYSGU CYMRAEG CYFARCH / RHIFAU / LLIWIAU / AMSER PANED	
Helo	Hola
S'mae /Shwmae	Que tal?
Bore da	Buenos días
Prynhawn da	Buenas tardes
Pwy wyt ti?	Cómo te llamas?
Elin ydw i	Me llamo Elin
	
<b>Rhifau</b>	<b>Números</b>
Un	1
Dau	2
Tri	3
Pedwar	4
Pump	5
Chwech	6
Saith	7
Wyth	8
Naw	9
Deg	10
	
<b>Lliwiau</b> Pa liw?	<b>Colores</b> Qué color?
Coch	Rojo
Glas	Azul
Gwyrdd	Verde
Melyn	Amarillo
Oren	Naranja
Brown	Marrón
Pinc	Rosado
Porffor / Piws	Violeta
Gwyn	Blanco
Du	Negro
	
<b>Amser paned</b>	
Wyt ti isio / eisiau ...?	Quieres...?
Dw i isio / eisiau ...	Quiero...
paned	una taza (de algo)
te	te
coffi	café
llefrith / llaeth	leche
siwgr	azúcar
diod	una bebida
dŵr	agua
bisged / i	galleta/s
ffrwyth	fruta
	
<b>Amser mynd adref</b>	
Hwyl fawr!	Adiós!
Ta tal	Chau!
Tan yfory!	Hasta mañana!
	

*Poster geirfa i gydfynd gyda sesiwn sgwrsio lefel Mynediad*

Sylwadau'r Swyddogion:

*Mae gwaith Menter wedi bod yn heriol iawn. Treuliais amser byr yn yr Ariannin cyn i'r cyfnod clo ddigwydd ac yna teithio yn ôl i Gymru. Mae cymdeithasu yn yr Ariannin yn digwydd yn hwyr iawn fin nos ac oherwydd y gwahaniaeth amser, roedd hyn yn heriol.*

*Buaswn i wedi mwynhau dod i adnabod y bobl yn well er mwyn gwybod beth maen nhw'n mwynhau ei wneud. Ar y llaw arall mae nifer o ddigwyddiadau a dathliadau wedi digwydd ar-lein ac rydym yn bendant wedi cael sbort a sbri yn cynnal gweithgareddau megis cwisiau a phaned a sgwrs.*

- Anwen Harris

*O ran gweithgareddau Menter Patagonia roedd popeth yn ddigidol yn 2020, ond roedd hyn wedi galluogi pobl o Gymru i fynychu'r nosweithiau cymdeithasol a chymryd rhan yn y gweithgareddau hefyd.*

*Roedd y sefyllfa anffodus oherwydd y pandemig wedi cryfhau'r berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg y ddwy wlad.*

- Sally Ann Nicholls

## 4 Ysgoloriaethau

Fel y soniwyd uchod yn adroddiad Eiry Miles, prif gyfraniad y Ganolfan Dysgu Cymraeg i'r Cynllun fel arfer yw talu am dair ysgoloriaeth i ddysgwyr o'r Wladfa, sy'n eu galluogi i ddilyn cwrs Cymraeg am fis yng Nghymru. Oherwydd y Pandemig, ni fu modd i ddeiliaid yr ysgoloriaethau ddod i Gymru yn 2020, felly gohiriwyd eu hysgoloriaethau am flwyddyn. Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd y bydd y cyrsiau'n rhedeg yn 2021, felly bydd rhaid aros i weld sut y gellir cefnogi'r tri dysgwr llwyddiannus a gwneud defnydd effeithiol o arian y Ganolfan.

Yn yr un modd, ni ddigwyddodd Ysgoloriaethau yr Urdd nag Ysgoloriaeth Prifysgol Caerdydd/Santander yn 2020 oherwydd cyfyngiadau teithio rhyngwladol.

## 5 Holiadur Rhanddeiliaid

Nid yw'r Cynllun erioed wedi profi blwyddyn debyg i 2020. Teimlwyd effaith Covid-19 ar draws y byd, yn enwedig yn y sectorau addysg. Nid yw'r Cynllun am golli'r elfen wyneb yn wyneb, ond mae'r flwyddyn hon wedi dangos fod rhaid manteisio ar effeithiolrwydd technoleg, yn enwedig wrth ystyried y dysgwyr sydd wedi cael mynediad i'r Cynllun o du allan i dalaith Chubut, cartref gwreiddiol y Wladfa Gymraeg; lleoedd fel Santa Fe, Buenos Aires, Mendoza, Neuquen a hyd yn oed Salta yn y gogledd.

Yn ogystal ag addasu i'r newidiadau oherwydd Covid-19, daeth 2020 â newid i'r dull o lywodraethu'r Cynllun, gyda chyfnod y Monitor Academaidd yn dod i ben. Cyn symud ymlaen, roedd y British Council Cymru yn awyddus i wrando ar anghenion dysgwyr, addysgwyr a chymunedau lleol y Wladfa, yn ogystal â thrafod sut gallwn barhau i gryfhau cysylltiadau'r Wladfa â Chymru.

Er mwyn casglu'r wybodaeth hon, cyflwynodd rhanddeiliaid allweddol atebion ar ffurf holidaur. Daeth y prif themâu isod i'r amlwg yn yr holidauron:

- Parhau i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr newydd gael mynediad at wersi trwy gynnig gwersi ar-lein, yn enwedig dysgwyr o'r tu allan i dalaith Chubut.
- Cryfhau'r elfen gymdeithasol ar-lein, drwy gynnig cyfleoedd i ddysgwyr gysylltu â siaradwyr Cymraeg o'r Wladfa ac o Gymru.
- Creu cysylltiadau ag ysgolion o Gymru, gyda ffocws ar amlieithrwydd.
- Parhau i gefnogi dysgwyr sy'n gadael y gwersi.
- Cefnogi'r cymunedau lleol yn eu gwaith o hybu'r iaith Gymraeg, yn ogystal â diwylliant unigryw Y Wladfa.



# Atodiadau

## Adroddiadau'r Swyddogion

### Anwen Harris

Anwen ydw i ac rwy'n Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg yn ardal y Dyffryn. Es i allan i'r Ariannin fis Chwefror i ddechrau ar fy swydd yn datblygu'r iaith Gymraeg am ddeg mis. Roedd y croeso yn anhygoel a chweddais â phobl hyfryd a chyfeillgar.

Yn anffodus, ar ôl mis o ryddid a dechrau'r swydd am bythefnos daeth cyfnod clo yn sydyn. Cafodd hyn effaith mawr ar yr ysgolion a'r gymuned. Er gwaetha'r sefyllfa, datblygon ni i ddysgu ar-lein. Fe gweddais i â llawer o blant am y tro cyntaf ar-lein ac roedd hyn yn heriol iawn. Ar ôl wyth wythnos yn y cyfnod clo hedfanais i nôl i Gymru. Rydw i wedi bod yn gweithio ac addysgu yn yr Ariannin, ond yn gwneud hynny o Gymru. Mae technoleg yn anhygoel!

Rydw i wedi bod yn gweithio gyda phlant cynradd yn bennaf, ond hefyd rydw i wedi bod yn dysgu plant uwchradd a chymryd rhan mewn sesiynau siaradwyr a chwepwl o sesiynau i oedolion. Fe fum i'n addysgu dosbarthiadau yn Ysgol y Gaiman a Blwyddyn 1 yng Ngholeg Camwy. Rydw i hefyd wedi bod yn cynnal a chynorthwyo gweithgareddau Menter. Gwnaethom drefnu cwisiau, fideos o bobl Patagonia yn siarad Cymraeg, patrwm iaith yr wythnos a phaned a sgwrs wythnosol.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i'r disgwyl. Yn bendant, bu'n flwyddyn heriol, ond hefyd blwyddyn yn llawn profiadau a rydw i wedi dysgu cymaint eleni.

Mae nifer o agweddau cadarnhaol wedi dod allan o'r flwyddyn yma. Rydym wedi cynnal hyfforddiant am y tro cyntaf rhwng athrawon Y Wladfa a chynllun Tric a Chlic yng Nghymru. Roedd athrawon y Wladfa yn defnyddio'r cynllun yma, ond erioed wedi cael hyfforddiant. Roedd yr hyfforddiant yn sicrhau bod yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol a chywir o'r Cynllun i ddatblygu safon y Gymraeg. Roedd hyn yn llwyddiannus dros ben. Mae'r flwyddyn yma wedi agor drysau i dechnoleg ac wedi cryfhau cysylltiadau rhwng Y Wladfa â Chymru. Ni fyddai hyn wedi digwydd mewn sefyllfa arferol.

Cryfder arall yw ein bod wedi llwyddo i rannu cyflwyniadau PowerPoint a dogfennau gyda'r disgyblion. Roedd y plant yn gallu gwyllo clipiau fideo, gwrando ar gerddoriaeth a darllen straeon yn ystod ein gwersi. Ni fyddai hyn wedi digwydd ar lawr y dosbarth oherwydd diffyg adnoddau.

Mae dysgu ar-lein hefyd wedi caniatáu i ni fod yn fwy hyblyg. Rydym wedi bod yn addysgu'r disgyblion cynradd mewn grwpiau llai, felly mae'r plant wedi bod yn derbyn mwy o sylw a chymorth yn ystod y gwersi. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at ddisgyblion sy'n llawer mwy siaradus.

O ran datblygiad proffesiynol, rydw i wedi llwyddo i wella fy sgiliau technoleg y flwyddyn hon. Mae hyn yn holl bwysig i gadw diddordeb y disgyblion ac i beidio ail-adrodd yr un math o wersi. Mae eleni wedi gwneud i mi feddwl yn greadigol ac arbrosi

gyda thechnoleg. Rydw i wedi creu gweithgareddau a chlipiau fideo ar Quizlet, Kahoot, Wordwall, iMovie a Padlet.

Yn ogystal â hyn, 'dw i wedi gwella fy sgiliau ieithyddol, gan ddysgu mwy o batrymau iaith a threigladau. Mae ailadrodd yn holl bwysig wrth ddysgu Cymraeg ail iaith. Hefyd, mae dysgu a gwella fy sgiliau ieithyddol yn holl bwysig. Nid yn unig rydw i wedi gwella fy sgiliau Cymraeg, ond rydw i hefyd wedi dysgu llawer o eiriau a brawddegau Sbaeneg. Byddaf yn parhau i ddysgu Sbaeneg.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd clywed Anthem Genedlaethol Cymru yn cael ei chanu bob dydd yn yr ysgol gynradd. Roedd hyn yn gyrru ias i lawr fy nghefn - gweld plant o bob oedran yn canu'r anthem, filltiroedd o Gymru. Roedd hyn yn anhygoel! Dim ond pythefnos gefais i yn yr ysgol ac roedd pob eiliad yn werthfawr. Mwynheais i bob eiliad!

Yn anffodus, digwyddodd Covid a chaeodd yr ysgol yn gyflym. Dyma'r siom fwyaf gefais i! Collais yr holl ddigwyddiadau pwysig, fel ymuno gyda chôr lleol a'r holl ddathliadau yn yr ysgol, eisteddfodau, Gŵyl y Glaniad a chymanfaoedd canu. Roedd addysgu'r plant ar y sgrîn yn eitha rhwystredig ac roedd gweld y disgyblion yn methu cymysgu gyda'u ffrindiau am amser mor hir yn brofiad anodd iawn i mi.

Rydw i mor ddiolchgar fy mod wedi cael y cyfle i gwrdd â phobl anhygoel y Dyffryn. Yn anffodus ni chyrhaeddais i ardal Yr Andes, ond rydw i wedi cwrdd â phobl ar-lein ac yn edrych ymlaen at ymweld â nhw pan fydd y sefyllfa yn gwella.

Pan fydd sefyllfa Covid yn gwella byddaf yn bendant yn dychwelyd i'r Ariannin i weld pawb ac i gwrdd â phobl yr Andes wyneb yn wyneb. Yn y cyfamser rydw i'n dychwelyd i fy swydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd.

## **Sally Ann Nicholls**

Ces i fy ngeni ym Mhentre'r Eglwys ger Pontypridd a'm magu yn nhref hanesyddol Llantrisant, Rhondda Cynon Taf. Es i Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Gyfun Llanhari. Roeddwn i wrth fy modd yn astudio ieithoedd yn yr ysgol a fy hoff bwnc oedd Cymraeg, wrth gwrs!

Astudiais i ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan ac enillais radd anrhydedd yn y Gymraeg. Ar ôl i mi raddio fe wnes i gwrs ymarfer dysgu yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd. Bues i'n athrawes am ugain mlynedd ac roeddwn i'n dysgu Cymraeg fel pwnc ail-iaith i blant 11-18 oed. Bues i'n bennaeth adran mewn tair ysgol hefyd.

Yn 2015, dechreuais i weithio fel Tiwtor Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn 2016 dechreuais astudio MA mewn Astudiaethau Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd. Fe raddiais i eleni ac roedd fy nhraethawd hir yn seiliedig ar ymwybyddiaeth rhieni ysgolion cynradd o fanteision deallusol a gwybyddol addysg ddwyieithog i'w plant.

Ers 2017 rwyf wedi bod yn gweithio fel Swyddog Croesi'r Bont i'r Mudiad Meithrin ac ers Medi 2019 rwyf wedi bod yn brif swyddog yn y de ddwyrain. Rwyf wedi peilota a datblygu cynllun iaith o'r enw 'Croesi'r Bont' ac erbyn hyn mae'r cynllun wedi datblygu'n genedlaethol.

Fy hobiau yw teithio, dysgu am ieithoedd lleiafrifol, rhedeg a llenyddiaeth Gymraeg. Fy hoff awdures yw Kate Roberts ac mae ei gwaith hi wedi fy ysbrydoli i'n fawr.

Rwyf wedi cael sawl antur tra'n teithio'r byd. Cymerais i flwyddyn Sabothol yn 2020 ac rwyf wedi bod yn gweithio fel Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn yr Andes ym Mhatagonia. Yn anffodus, bu'n rhaid i mi ddychwelyd i Gymru oherwydd y pandemig, ond rwyf wedi parhau gyda'r gwaith dysgu a'r gweithgareddau cymdeithasol ar Zoom.

Yn ystod fy mlwyddyn fel Swyddog rwyf wedi dysgu nifer o ddsbarthiadau ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd. Ar wahân i'r gwaith addysgu a'r gwersi ffurfiol, rwyf wedi bod yn gyfrifol am drefnu nifer o weithgareddau Menter Patagonia megis nosweithiau cwis, noson bingo, Noson Lawen a boreuau coffi. Mae'r gweithgareddau rhithiol tu allan i'r ystafell dosbarth wedi galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg ac eleni bu'n bosib i ni wahodd pobl o Gymru i gymryd rhan yn y gweithgareddau hefyd.

Mae'r swydd wedi fy ngalluogi i ddysgu mwy am sefyllfa'r Gymraeg a'r diwylliant ym Mhatagonia. Mae'r flwyddyn wedi bod yn brofiad bythgofiadwy ac roedd y profiad o fyw a gweithio yn Chubut am gyfnod byr yn unigryw.

Rwyf wedi dysgu rhai geiriau ac ymadroddion syml yn Sbaeneg a hoffwn i barhau i ddysgu'r iaith.

Rwyf wedi dysgu llawer o sgiliau addysgu newydd, yn enwedig sut i gyflwyno gwersi rhithiol a defnyddio technoleg er mwyn cyfathrebu gyda'r dysgwyr yn gyson. Mewn cyfnod byr iawn, bu'n rhaid i mi addasu fy ngwersi byw a'u haddysgu'n rhithiol yn hytrach na'u cyflwyno mewn ystafell ddsbarth.

Mae fy nefnydd o'r iaith darged a'r ffordd rwyf yn cyfathrebu gyda dysgwyr yn ystod gwersi wedi cryfhau hefyd.

Rwyf wedi arbrofi gyda dulliau a methodoleg dysgu sy'n wahanol iawn ac mae'r cyfarthrebu cyson gyda thiworiaid Cymraeg eraill wedi helpu i ddatblygu fy sgiliau a'm arddull addysgu. Rwyf wedi dysgu sut i ddefnyddio rhaglenni megis Kahoot a Wordwall er mwyn creu gemau ac adnoddau iaith.

Fel rhan o'r swydd rwyf wedi bod yn gyfrifol am ddiweddarau a rhannu pethau ar wefannau cymdeithasol er mwyn hybu a hyrwyddo gwaith y cynllun, felly rwyf wedi dysgu sgiliau newydd wrth wneud hynny.

Yn bendant, yr uchafbwyntiau oedd cael y cyfle i fyw ac i weithio ym Mhatagonia am gyfnod byr ac i fod yn rhan o gymuned unigryw yn Chubut. Manteisiais ar y cyfle i wneud llawer o ffrindiau newydd ac i ddysgu mwy am yr iaith Gymraeg a'r diwylliant ym Mhatagonia.

Roeddwn i wrth fy modd yn addysgu'r dosbarthiadau ac roedd gweld y dysgwyr yn gwneud cynnydd yn bleser mawr. Roedd pob un ohonynt yn frwdfrydig iawn ac yn teimlo'n angerddol iawn dros yr iaith.

Y siom fwyaf oedd bod y pandemig wedi fy rhwystro rhag gwneud yr holl bethau roeddwn i wedi gobeithio eu gwneud tra roeddwn i yn Yr Ariannin. Ar ôl tair wythnos o fyw yno, dechreuodd cyfnod clo llym iawn a chaeodd yr ysgolion a'r canolfannau Cymraeg ar unwaith.

Felly, yn anffodus, ches i ddim cyfle i deithio o gwmpas de America i addysgu'r myfyrwyr wyneb yn wyneb nac i gymdeithasu o gwbl. Roeddwn i wedi edrych ymlaen at fynd i'r eisteddfodau ac i ddathlu Gŵyl y Glaniad tra roeddwn i yno, ond yn anffodus bu'n rhaid i mi ddychwelyd i Gymru ym mis Mai. Y bwriad oedd dychwelyd i'r Ariannin ym mis Medi, ond yn anffodus fe waethygodd y sefyllfa oherwydd y pandemig.

Fy mwriad yw cadw mewn cysylltiad gyda phawb a gyda thipyn o lwc byddaf yn gallu dychwelyd i Chubut yn y dyfodol agos pan fydd pethau wedi tawelu o ran y pandemig.

Rwyf wedi parhau i gyfathrebu gyda'r dysgwyr ers i'r gwersi swyddogol orffen ac maen nhw'n hoffi manteisio ar y cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae'n braf iawn cymharu'r tywydd a gwahanol ddathliadau yn y ddwy wlad!

Fy mwriad oedd cydweithio gyda staff dosbarth Meithrin Ysgol y Cwm er mwyn sefydlu cynllun trochi iaith Mudiad Meithrin yno, ond bu hynny'n amhosib tra roedd yr ysgol ar gau. Fe hoffwn i gadw mewn cysylltiad gyda'r ddwy athrawes a chydweithio ar y cynllun, unwaith y bydd plant yn ôl yn yr ysgol. Bydd modd cryfhau'r berthynas rhwng plant dosbarth meithrin Ysgol y Cwm a'r plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin yng Nghymru. Byddaf yn rhannu adnoddau gyda'r ysgol hefyd.

Roedd 2020 yn flwyddyn siomedig iawn i bawb, ond er gwaethaf y pandemig, roedd y profiad o weithio ar y cynllun yn wych, felly hoffwn ddiolch i'r Cyngor Prydeinig a phawb arall sy'n cadw'r gwaith holl bwysig hwn ar fynd.

## **Marian Brosschot**

Marian Brosschot ydy fy enw i a rydw i'n dod o Fotwnnog ym Mhen Llŷn yng Ngogledd Orllewin Cymru. Es i fyw i Drelew ym mis Chwefror 2020, gwta fis cyn i'r cwarantîn llym ddechrau yn yr Ariannin. Cyflwynais un wers mewn ystafell ddosbarth gyda tua hanner fy ngrwpiau cyn dechrau popeth ar-lein.

Fy rôl i fel Swyddog oedd addysgu cyrsiau Cymraeg ar bob lefel, annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg a threfnu gweithgareddau Menter Patagonia, sef gweithgareddau cymdeithasol i bobl gael defnyddio'r Gymraeg. Eleni roedd gen i oddeutu 12 grŵp, y rhan helaeth ar lefel Mynediad. Hefyd, roeddwn i'n helpu gyda grwpiau ym Mhorth Madryn ac yn rhoi gwersi 1-1 am ddim i bobl oedd ddim yn medru/eisiau mynychu dosbarthiadau grŵp.

Er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, fe wnaethom drefnu cwisiau, paneidiau a sgwrs (unwaith yr wythnos), sesiynau sgwrsio i lefel Mynediad yn arbennig, gemau iaith (Quizlet live) a chadw mewn cysylltiad cyson gyda'r dysgwyr drwy Whatsapp a Facebook Menter Patagonia er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu hefyd e.e. anfon negeseuon llais ar Whatsapp a ffilmio eu hunain yn siarad yn Gymraeg a postio'r fideos ar-lein.

Er mwyn cefnogi'r dysgwyr oedd ddim yn medru mynychu dosbarthiadau ar-lein ac i ehangu'r cyfleoedd i bobl ddysgu'r iaith Gymraeg, ffilmiais ddau gwrs o 25 gwrs, 10 munud yr un ar YouTube a'u rhannu ar dudalen Facebook Menter Patagonia. Bu tudalen Facebook Menter yn brysur eleni efo pob math o weithgareddau a gemau ac mae llawer o bobl wedi medru cymryd rhan oedd ddim yn medru bod mewn dosbarth.

Yn bersonol, 'dw i wedi magu llawer o hyder yn fy ngallu fel person i addasu i sefyllfaoedd anodd ac i feddwl yn greadigol wrth weithio o fy nghartef ac ar-lein, mewn gwlad a diwylliant newydd. 'Dw i wedi dysgu llawer am dechnoleg a sut i ddefnyddio technoleg yn y modd gorau i gysylltu efo pobl a'u helpu nhw i ddysgu. Mae'r pandemig wedi rhoi rhywfaint o ryddid i mi hefyd i arbrofi efo pethau newydd e.e. fideos YouTube. 'Dw i wedi magu llawer o hyder yn siarad â chamera a recordio fy hun, ond hefyd mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd siarad gyda phobl yn gyffredinol a chadw mewn cysylltiad, yn ogystal â phwysigrwydd gwarsi wyneb yn wyneb mewn dosbarth go-iawn.

Mae'r flwyddyn yma wedi cael effaith bositif iawn ar yr ochr dechnolegol o'r gwaith a fy natblygiad fel tiwtor Cymraeg ar-lein. Rydw i wedi dysgu sut i ddefnyddio llu o raglenni cyfrifiadurol a magu sgiliau recordio, addasu, cyflwyno a ffilmio. Hefyd, dysgais sut i baratoi gwarsi byrion i'w ffilmio, egluro heb gymorth propiau mewn ystafell ddosbarth a meddwl yn greadigol sut i addasu gwaith pâr neu grŵp ar gyfer dosbarth ar-lein. Mae wedi bod yn wych medru cyd-weithio efo tiwtoriaid o ardaloedd eraill e.e. yr Andes, na fyddem wedi gallu ei wneud mewn blwyddyn arferol. Hefyd, cydweithio gyda tiwtoriaid lleol drwy rannu dosbarthiadau a defnyddio adnoddau ar-lein.

Bu llwyddiant y cwrs 'Un mes de galés' yn sicr yn uchafbwynt, oherwydd fe sylwais pa mor bwysig oedd cael rhywbeth fel hyn i siaradwyr Sbaeneg iaith gyntaf. Mae'n amlwg o'r nifer o bobl sydd wedi edrych ar y fideos a'r sylwadau, a'r negeseuon rydw i wedi eu derbyn yn uniongyrchol, fod yna angen am y math hwn o beth a bod pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau gweld mwy ohono. Bu'n llwyddiant amlwg, yn enwedig o dan yr amgylchiadau oedd yn bodoli yn 2020, oherwydd fod pawb yn eu cartrefi ac yn troi fwyfwy tuag at dechnoleg am atebion.

Bu gweld cynifer o ddysgwyr newydd yn ymuno ar y cwrs ar-lein ym mis Awst hefyd yn rhywbeth arbennig, oherwydd mae'n dangos fod y diddordeb yn bodoli a bod pobl yn awyddus i ddysgu Cymraeg. Mae'n wych fod y rhan fwyaf o'r rheini wnaeth ddechrau ar y cwrs ar-lein, wedi cario ymlaen gyda'r cwrs.

Y siom fwyaf ar ochr bersonol ydy na ches i gyfle i deithio i unman ac na chefais gyfle i gyfarfod llawer o bobl wyneb yn wyneb ac i fagu perthynas go-iawn gyda nhw. Collais yr holl ddiwyddiadau pwysig hefyd, fel yr eisteddfodau a Gŵyl y Glaniad.

Rydw i'n rhagweld y bydd y dosbarthiadau yn ailddechrau ar-lein fis Mawrth a bydd blwyddyn debyg o'n blaenau, neu y bydd o leiaf hanner cyntaf y flwyddyn yn eithaf cyfyngedig. Bydd y dosbarthiadau yn cario ymlaen yr un fath a bydd dosbarthiadau newydd ar gael i bobl ailddechrau neu ddechrau ar y lefelau priodol iddyn nhw. Bydd cyfle gen i dros y mis neu ddau nesaf (Ion/Chwef 2021) i addasu a pharatoi adnoddau ar lein fel eu bod yn barod at y tymor newydd. Bydd y cwrs Mynediad a'r cwrs Sylfaen wedi eu cyfieithu ac yn barod i'w defnyddio, gobeithio.

Bydd angen meddwl am gyfuno dosbarthiadau ac ailstrwythuro'r amserlen ar gyfer dosbarthiadau newydd, boed yn ddosbarthiadau hollol newydd neu newydd i mi o ganlyniad i gymryd grwpiau Sally.

Bydd mynd yn ôl i'r Ariannin yn heriol gan y byddaf yn dychwelyd yno ar ben fy hun. Bydd cymaint yn dibynnu ar y sefyllfa gyda'r pandemig a beth fydd yn bosib o ran cael rhyddid i symud o gwmpas a chyfarfod gyda phobl.

## Tiworiaid Lleol

### Luned Gonzalez

Mae'r Cynllun eisioes wedi cefnogi rhwydwaith o Diwtoriaid Lleol, sy'n darparu gwersi cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion Y Wladfa, yn ogystal â gwersi i rai yn eu harddegau ac oedolion. Yn yr ysgolion cynradd mae'r Cynllun yn cyfrannu tuag at gyflog athrawon yn yr ysgolion, ac mae'n ddibynnol ar gyfraniad gan lywodraeth leol.

Er mwyn cefnogi'r Twitoriaid Lleol yn ystod cyfnod clo Covid-19, darparwyd hyfforddiant i nifer o diwtoriaid o fewn y rhwydwaith er mwyn datblygu eu sgiliau addysgu. Yn bythefnosol, sefydlodd y Cydlynedd Dysgu sesiwn hyfforddi ar elfennau TGCh a gloywi iaith, gyda chymorth y Swyddogion. Galwyd y sesiynau hyn yn 'Ystafell Athrawon'. Roedd gan nifer o fewn y rhwydwaith ddiffyg hyder o ran darparu gwersi rhithiol, felly penderfynwyd bod rhaid cefnogi'r Twitoriaid Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gwersi ar-lein yn effeithiol.

Yn absonoldeb swyddogion ac athrawon o Gymru, darparwyd hyddorddiant swyddogol i Diwtoriaid y Wladfa. Sicraodd Anwen Harris hyfforddiant ar gyfer 4 aelod o staff o bob un o'r tair ysgol gynradd ddwyieithog yn Chubut. Yn ogystal â hyn, darparwyd hyfforddiant rhithiol gan CBAC ar gyfer 4 Tiwtor Lleol, sef 'Dechrau Dysgu'. Mae 'Dechrau Dysgu' yn gymhwyster swyddogol gan CBAC ar gyfer tiwtoriaid Cymru. Talodd Prifysgol Bangor am 4 tiwtor i gwblhau'r cwrs.

# Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

## Eiry Miles

Yn 2020, parhawyd â'r gwaith o addasu llyfrau cwrs newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer dysgwyr Patagonia. Penodwyd cyfieithydd yng Nghymru i orffen addasu'r cwrs Mynediad, ond oherwydd anawsterau'r cyfnod clo cyntaf, nid oedd modd iddi barhau â'r gwaith. Felly, trosglwyddwyd yr awenau i diwtoriaid y Cynllun ym Mhatagonia, sy'n cydweithio â Dr Iwan Rees o Brifysgol Caerdydd er mwyn sicrhau bod y cwrs yn cynnwys geirfa a phatrymau ieithyddol sy'n rhan o dafodiaith gyfoethog Y Wladfa.

Hyderir y caiff y llyfrau cwrs newydd effaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu Cymraeg yn Y Wladfa am y rhesymau canlynol:

- Cynlluniwyd y cyrsiau newydd yn ofalus gan dynnu ar yr ymchwil ddiweddaraf ym maes dysgu iaith. Bu proses ymgynghori a pheilota drwyadl i sicrhau bod y cyrsiau o safon uchel ac yn cyflwyno'r Gymraeg mewn ffordd eglur a rhesymegol.
- Mae llawer o adnoddau atodol a chanllawiau manwl yn cyd-fynd â phob uned, sy'n golygu llawer llai o waith paratoi i'r tiwtor. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn Y Wladfa lle mae adnoddau'n brinnach a chyflogau'n is nag yng Nghymru.
- Mae deunyddiau digidol o safon uchel yn cyd-fynd â'r cyrsiau, sy'n galluogi dysgwyr i ymarfer sgiliau gwrando gartref ac yn y dosbarth.
- Mae llyfrau'r cwrs wedi'u dylunio'n broffesiynol a'r cynnwys a'r themâu'n ffres ac yn fodern. Oherwydd hyn, bydd yn brofiad mwy hwylus a diddorol i'r dysgwyr.

Rhannwyd llawer o adnoddau eraill y Ganolfan â thiwtoriaid Y Wladfa e.e. hyfforddiant ar ddysgu ar-lein a chyflwyniadau PowerPoint y cwrs Mynediad. Yn ogystal, cynorthwyodd y Ganolfan â'r gwaith o sicrhau lle i bedwar o diwtoriaid i Wladfa ar gwrs hyfforddi Dechrau Dysgu, sef cymhwyster y Ganolfan i diwtoriaid Cymraeg, a gyflwynir gan Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin ac a achredir gan CBAC.

Prif gyfraniad y Ganolfan Dysgu Cymraeg i'r Cynllun fel arfer yw talu am dair ysgoloriaeth i ddysgwyr o'r Wladfa, sy'n eu galluogi i ddilyn cwrs Cymraeg am fis yng Nghymru. Oherwydd y pandemig, ni fu modd i ddeiliaid yr ysgoloriaethau ddod i Gymru yn 2020, felly gohiriwyd eu hysgoloriaethau am flwyddyn. Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd y bydd y cyrsiau'n rhedeg yn 2021 felly bydd rhaid aros i weld sut y gellir cefnogi'r tri dysgwr llwyddiannus a gwneud defnydd effeithiol o arian y Ganolfan.

# Adroddiad y Cydlynnydd Addysgu a'r Cydlynnydd Tiwtoriaid Lleol

## Clare Whitehouse

Nid oes angen egluro bod 2020 wedi bod yn flwyddyn anarferol ac nid oes angen ymhelaethu ar y rhesymau am hyn! Digon fyddai dweud bod y Cynllun Dysgu Cymraeg wedi wynebu heriau di-ri a bod elfennau cadarnhaol ac elfennau negyddol wedi dod i'r amlwg oherwydd hyn.

Hoffwn bwysleisio mai 'gweithio fel tîm' yw'r un peth hollol sylfaenol sydd wedi ein galluogi i wynebu'r sefyllfa eleni ac wedi ein galluogi i barhau gyda'r gwaith o addysgu a chenhadu'r iaith a'r diwylliant. Apwyntiwyd tri unigolyn oedd yn meddu ar y sgiliau perthnasol ar gyfer gofynion y swyddi ac er bod penodi athrawon o Gymru bob amser yn her er mwyn dod o hyd i'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn gweithio yn Y Wladfa, llwyddwyd i wneud hyn yn llwyddiannus eleni.

Dechreuodd y gwaith o ffurfio tîm fyddai'n cydweithio nid yn unig gyda'i gilydd ond hefyd gyda thiwtoriaid lleol ac athrawon ar lawr gwlad, yn ôl yng Nghymru ym mis Ionawr pan fu cyfarfod briffio rhwng y tair swyddog, y Cydlynnydd Addysgu a'r Ymgynghorydd yn British Council Cymru. Treuliwyd diwrnod yn paratoi'r tair am y gwaith oedd o'u blaenau, gan greu teimlad cryf o berthyn i'r Cynllun a bod yn rhan greiddiol ohono o'r dechrau.

Bob amser, mae disgwyl i'r swyddogion sydd yn mynd allan i'r Wladfa dderbyn bod angen am hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion y cymunedau allan ym Mhatagonia, ond eleni mae hyn wedi bod yn bwysicach nag erioed. Roedd angen ymdopi gyda'r siom o beidio gallu gwneud pethau oedd ar y gweill ac addasu i ffordd hollol newydd o weithio, ac er bod hyn wedi bod yn brofiad o ddysgu wrth wneud y gwaith, yn sicr mae ffyrdd newydd o weithio wedi sicrhau bod y gwaith wedi cario ymlaen o dan amgylchiadau anodd. Bydd yn rhaid mantoli yr elfennau newydd er mwyn gweld beth fydd o fudd i'r Cynllun yn y dyfodol, ac ar adeg pan roedd hi'n bryd dadansoddi'r Cynllun er mwyn gweld beth oedd angen ei wneud i'w wella. Bydd y profiadau hyn yn sicr o gyfrannu tystiolaeth gref o ran datblygiadau Cynllun ar gyfer y dyfodol.

Ar ddechrau 2020 roeddem yn dechrau trefnu gweithgareddau'r flwyddyn ac roedd pawb oedd ynghlwm wrth y prosiect yn frwdfrydig. Roedd y swyddogion wedi cyrraedd, yr ysgolion wedi agor, yr athrawon a benodwyd i'r tair ysgol wedi cyrraedd a'r gwersi allgyrsiol wedi dechrau; ond o fewn mis roedd yr Ariannin o dan gyfnod clo llym iawn a phopeth ar gau. Mewn rhai achosion doedd y swyddogion ddim wedi cwrdd â'r myfyrwyr yr oedden nhw i fod i'w dysgu hyd yn oed. Yn achos Coleg Camwy, yr ysgol uwchradd yn Gaiman, gweithdai ydy'r gwersi yn swyddogol a doedden nhw ddim wedi cael eu trefnu cyn i'r cyfnod clo ddod i rym.

Profwyd bwlch am bythefnos neu dair wythnos wrth i bobl ddisgwyl i weld sut y byddai pethau yn datblygu. Efallai y byddai pawb yn ôl yn y gwaith a'r ysgol cyn diwedd y mis. Pan ddaeth yn amlwg bod y sefyllfa ddim yn un mor hawdd i'w datrys, dechreuwyd edrych



ar ffyrdd i weithio ar-lein a phan ddaeth yn amlwg bod y firws ond megis dechrau, caewyd ffiniau'r Ariannin. Cynigiwyd hediadau arbennig i'r swyddogion a manteisiodd dwy o'r tair ar y cynnig i ddychwelyd i Gymru, ond iddynt barhau i weithio i'r Cynllun.

Felly, roedd hon yn sefyllfa newydd i bawb, sef gweithio mewn ffordd rithiol â'r tîm oedd wedi dechrau ymfurfio ar ddwy ochr Môr yr Iwerydd. Teimlwyd bod angen llawer o gefnogaeth ar bawb dros y cyfnod hwn a dechreuwyd cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar-lein. Oherwydd salwch, colodd y Cydlynnydd Addysgu rai misoedd o waith yn ystod y normal newydd, ond erbyn gwyliau'r gaeaf roedd yn ddigon iach i ail-gymryd yr awennau a chydlynu ail hanner y flwyddyn.

## **Gweithgaredd rheolaidd y Cydlynnydd Addysgu**

- Dosbarth wythnosol grŵp Uwch Trevelin

Cyn y cyfnod clo roedd y grŵp yn gweithio trwy'r cwrs Uwch, ond newidiodd pethau oherwydd y sefyllfa gyda Covid-19. Erbyn hyn, maent wedi dechrau darllen nofel, edrych ar stori newyddion berthnasol, astudio cerdd... unrhyw esgus i gwrdd dros Zoom a siarad Cymraeg!

- Cysylltiad cyson efo'r Cydlynnydd yn Gaiman

Rydyn ni mewn cysylltiad cyson trwy gyfrwng ebost ac yn siarad pan fydd angen gwneud hynny. Rydym yn trafod materion ymarferol fel bywyd pob dydd y swyddogion, materion addysgiadol fel y cyrsiau a hefyd materion trefniannol megis taliadau i diwtoriaid.

- Cyfarfod bob yn ail wythnos gydag Ymgynghorydd Cyngor Prydeinig a'r swyddogion

Pan rodden ni o'r farn bod y sefyllfa yn un ddryslyd a bod angen mwy o gefnogaeth ar y swyddogion, fe ddechreuon ni gynnal cyfarfod dros Zoom er mwyn gweld sut roedd y gwaith yn dod yn ei flaen ac i gael cyfle i drafod y gwaith, os oedd angen.

- Sgwrs wythnosol/bob yn ail wythnos gyda'r swyddogion

Mae hyn yn rhan bwysig o fy swydd gan mai fi ydy'r cydlynnydd sydd yn gyfarwydd â bywyd yn y Wladfa, ond hefyd gan fy mod i'n Gymraes rydw i'n gallu deall sut mae rhywun o Gymru yn gweld y sefyllfa. Wrth fod mewn cysylltiad yn gyson credaf ein bod ni wedi gallu magu perthynas weithiol gadarnhaol a mod i wedi gallu cynnig arweiniad ar y materion sydd yn codi yn y gwaith fel tiwtor/athrawes yma yn Y Wladfa. Eleni mae hyn wedi bod hyd yn oed yn fwy pwysig gan bod yr angen i wneud penderfyniadau mawr wedi codi a bod un o'r swyddogion yn dal yn YWladfa tra bod y ddwy arall adre yng Nghymru, ond yn parhau i weithio i'r Cynllun.

- Sgyrsiau un i un i drafod materion efo'r tiwtoriaid fel maen nhw'n codi

Eleni, rydw i wedi cael sgyrsiau gyda thiwtoriaid am y newidiadau yn arholiad llafar Cymraeg i Oedolion CBAC, sgyrsiau am fethodoleg dysgu ar-lein, sgyrsiau am anoddau newydd, i enwi rhai pethau yn unig.

- Cadw mewn cysylltiad gyda'r Ymgynghorydd yn y Cyngor Prydeinig

Elfen bwysig arall o fy ngwaith ydy cadw mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Prydeinig a gwneud yn siŵr bod cyfathrebu clir rhwng Y Wladfa a Chymru ar ba bynnag fater sydd yn codi, e.e. rhannu holiadur ymgynghorol y Cyngor Prydeinig ac annog y pwyllgorau lleol i ymateb.

- Sesiwn wythnosol/bob yn ail wythnos Ystafell Rithiol Y Wladfa

Ers talwm, roeddwn i'n awyddus i weld elfen o loywi iaith a hyfforddiant i diwtoriaid. Mae'r Wladfa yn le mawr, 700 km o un pen i'r llall ac felly hyd yn oed pan roeddwn i'n gallu teithio o'r Andes i Ddyffryn Camwy roedd yn amhosib cael tiwtoriaid ac athrawon at ei gilydd oherwydd y pellteroedd a phatrymau gwaith. Gall athrawon fod yn gweithio yn y bore, y prynhawn a'r nos, felly mae'r diwrnod gwaith yn hir. Bydd pobl sy'n gweithio mewn swyddfa yn gorffen am 2 o'r gloch y prynhawn ac yn cael *siesta*, ond nid athrawon. Os ydy unigolyn yn astudio, maent yn astudio gyda'r nos o 6 o'r gloch ymlaen, felly mae'n anodd iawn cael pobl at ei gilydd.

Un o fanteision y cyfnod clo oedd bod pobl adre yn gweithio ac yn fwy hyblyg o ran amserlen. Dechreuais efo'r sesiynau ac ar gyfartaledd mae 18 o bobl wedi bod y mynychu yn gyson, y mwyafrif yn y grŵp bore dydd Gwener ac eraill sydd ddim ar gael ar fore Gwener yn mynychu ar brynhawn Mawrth. Mae hyn wedi arwain at greu grŵp WhatsApp lle mae tiwtoriaid yn gallu gofyn cwestiynau i'w gilydd ac i mi a'r swyddogion ac mae hyn wedi bod yn ffordd lwyddiannus o gadw mewn cysylltiad. Mae wedi galluogi i un o athrawon Comodoro Rivadavia fynychu hefyd, er ei fod 375 km o Drelew a 600km o'r Andes!

Trwy baratoi ar gyfer y sesiynau hyn roedd rhaid i mi ddechrau chwilio am raglenni a gemau fyddai'n bosib eu defnyddio yn y sesiynau ar-lein, gyda'r gobaith y byddai'r tiwtoriaid ac athrawon yn cael y profiad o'u defnyddio ac felly yn ennill hyder i'w defnyddio hefyd yn eu haddysgu eu hunain. Cafodd un o'r sesiynau Ystafell Athrawon Rithiol ei harwain gan y swyddogion ac roeddent yn rhannu syniadau am yr hyn maen nhw wedi ei ffeindio yn ddefnyddiol eleni wrth weithio ar-lein.

Byddai'n wych gallu parhau gyda'r sesiynau yn 2021 a chynnwys mwy o elfennau o rannu arfer dda ac o hyfforddi o ran dysgu ail iaith; rhaid cofio bod canran o'r tiwtoriaid sydd yn addysgu Cymraeg heb gymwysterau addysgu ffurfiol. Ar ddechrau 2021 bydd angen edrych ar y cwrs Mynediad newydd sydd yn cael ei addasu i Sbaeneg ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod y tiwtoriaid yn gwybod sut mae'n gweithio gan bod mwy o elfennau rhyngweithiol ar gael nag oedd gyda'r cyrsiau blaenorol.

## Gweithgareddau Eraill

- Sicrhau bod y cyrsiau ar gael i'r tiwtoriaid a'r swyddogion

Gan bod cyrsiau newydd yng Nghymru, mae'n hollbwysig bod ein dysgwyr ni yn gallu manteisio ar y datblygiadau, gan ein bod ni wedi bod yn galw am gyrsiau addas ers rhai blynyddoedd. Cyfieithwyd ac addaswyd hanner cyntaf y cwrs Mynediad i ddechrau ond roedd y diwyg yn anaddas ac roedd angen cyfieithu ac addasu'r ail hanner. Gan fod un o'r swyddogion wedi aros yn y Wladfa ac yn methu

teithio o gwbl yn ystod gwyliau'r gaeaf, aeth hi ati i weithio ar ail hanner y deunyddiau, felly rydyn ni wedi bod yn trafod rhai elfennau o'r gwaith er mwyn i'r cwrs newydd adlewyrchu iaith Y Wladfa. Mae angen cyrsiau ar y swyddogion, gan mai nhw sydd yn cario baich drymaf dysgu oedolion. Hefyd, mae'r tiwtoriaid lleol angen copïau o'r cyrsiau ac un peth fyddai'n braf fyddai i bob tiwtor oedolion dderbyn co bach ar ddechrau 2021 gyda'r cyrsiau i gyd arno, er mwyn iddynt allu gweithio oddi ar y cyfrifiadur neu argraffu'r cwrs. Erbyn hyn mae'r swyddog wedi penderfynu dod yn ôl i'r Ariannin am flwyddyn arall ac felly yn ystod gwyliau haf y Wladfa mae wedi mynd ati i orffen y gwaith, er mwyn sicrhau y bydd cwrs Mynediad cyfan ar gael i diwtoriaid yn y flwyddyn academaidd 2021.

Mae'r cydweithio efo Eiry Miles, sydd ar bwyllgor y Cynllun ond hefyd yn gweithio i Dysgu Cymraeg, wedi bod yn fuddiol hefyd gan ein bod ni wedi derbyn copïau drafft o'r cyrsiau sydd yn cael eu haddysgu yng Nghymru. Un peth sydd angen ei wneud yn y flwyddyn nesaf ydy gorffen addasu a chyfieithu lle bo'r angen, fel bod y cyrsiau i gyd yn addas ar gyfer y gynulleidfa yma yn Y Wladfa.

Mae'r deunyddiau ar-lein yn ddefnyddiol iawn i'r tiwtoriaid a'r swyddogion a'r dysgwyr a hoffem fod yn rhan o unrhyw gynlluniau hyfforddi ar gyfer addysgu'r cymwysterau newydd. Datblygiad pwysig i'r perwyl hwn ydy'r ffaith bod Dysgu Cymraeg yng Nghymru wedi cynnig lle i bedwar o diwtoriaid oedolion Y Wladfa i fynychu'r cwrs fydd yn arwain at gymhwyster dysgu oedolion Cymru. Gan y bydd yr addysgu ar-lein, bydd y pedwar tiwtor yn gallu mynychu'r sesiynau theori a bydd mentoriaid gyda chysylltiadau â'r Wladfa yn eu mentora ac yn eu helpu, unwaith y maent wedi dechrau ar y rhan ymarfer dysgu. Gobeithiwn y bydd hyn yn arbrawf lwyddiannus a bydd cyfle i eraill fynychu yn y dyfodol.

- Cefnogi'r swyddogion wrth iddynt arwain gweithgareddau Menter

Eleni, oherwydd nad ydy wedi bod yn bosib cynnal gweithgareddau mewn ysgolion ac ati, mae nifer o weithgareddau wedi digwydd ar-lein felly mae wedi bod yn bosib i mi fynychu Noson Lawen rithiol ddaeth â thalentau Cymru a'r Wladfa at ei gilydd, yn ogystal â chwisiau, Paned a Sgwrs ac ati. Rhaid dweud bod y gweithgareddau hyn wedi gweithio yn llwyddiannus ac wedi dod â dysgwyr o bedwar ban byd at ei gilydd! Mae wedi bod yn wych gweld pobl o Gymru ac o'r Wladfa yn sgwrsio ar yr un sgrin! Mewn dau achos roedd y cysylltiad rhwng dysgwyr yn Y Wladfa, Cymru, yr Unol Daleithiau a Chanada! Mae hyn wedi dechrau cysylltiad y gobeithiwn fydd yn tyfu yn ystod 2021.

- Trefnu arholiadau

Eleni, roedd 47 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyfer sefyll un o arholiadau CBAC i oedolion! Mae hyn yn dangos pwysigrwydd rhoi statws i'r iaith trwy gynnig arholiadau safonol o Gymru ac mae'n rhoi'r cyfle i unigolion brofi yr hyn maent wedi ei ddysgu ac mae hefyd yn ffordd o annog dysgwyr i symud ymlaen o un lefel i'r nesaf. Mae nifer o'r darpar-ymgeiswyr yn ddisgyblion yng Ngholeg Camwy ac maent wedi cael y cyfle i sefyll arholiadau i oedolion gan ddechrau gyda lefel Mynediad a symud ymlaen i lefel Canolradd. Wrth gwrs, oherwydd y sefyllfa fyd-eang, mae'n debygol na fydd yn bosib i

ddysgwyr sefyll arholiad eleni, ac mae hyn yn ddibynnol ar pryd y byddai'n bosibl cynnal yr arholiadau. Gan fod y flwyddyn academaidd yma yn dechrau ym mis Chwefror ac yn parhau tan fis Rhagfyr, bydd rhai o'r dysgwyr wedi symud ymlaen i'r brifysgol. Erbyn hyn, mae'n debyg y bydd yr arholiadau yn cael eu cynnig ar-lein yn 2021, felly bydd rhaid mynd ar ôl y darpar-ymgeiswyr er mwyn iddynt ddechrau paratoi ar gyfer sefyll yr arholiadau ym mis Mehefin 2021 mewn ffordd hollol newydd ac arbrofol!

## Elfennau cadarnhaol 2020

Un ffordd o barhau gyda'r gwaith eleni ydy trwy ganolbwyntio ar y pethau da sydd wedi codi o'r sefyllfa gan beidio talu gormod o sylw i'r pethau negyddol! Mae hyn wedi bod yn rhan bwysig o rôl y ddwy gydlynnydd yn y gorffennol wrth fentora'r swyddogion sydd yn dod i fyw yn Ne America ac yn gorfod ymdopi â ffordd o fwy newydd mewn lle newydd o dan bwysau gwaith, ond eleni mae pob un ohonom wedi bod yn dysgu byw mewn sefyllfa newydd felly mae'r mentora wedi cael lliw unigryw.

- Gweithio fel tîm

Aethpwyd ati eleni i bwysleisio'r syniad mai gweithio fel tîm fyddai'r swyddogion: gyda'r Cyngor Prydeinig, y cydlynwyr a'r tiwtoriaid a chymunedau lleol. Credaf fod hyn wedi digwydd oherwydd ewyllys da y swyddogion a chred y cyfranddalwyr eraill yng ngwerth y Cynllun.

- Gallu cyrraedd yn bell gydag ychydig

Mae'r ffaith bod y gwaith wedi symud ymlaen wedi bod yn anfantais i bobl sydd yn byw yn y manau lle nad oes cysylltiad gwe dibynadwy neu sydd ddim mor hyddysg gyda'r dechnoleg. Oherwydd nad oedd lleoliad daearyddol yn bwysig, roedd unigolion oedd gyda diddordeb mewn dysgu'r iaith yn gallu gwneud hynny drwy ymuno â'r dosbarthiadau dros y we.

Mae hyn wedi rhoi statws i'r iaith hefyd drwy ddangos ein bod ni yr un mor barod i arbrofi ag ieithoedd eraill fel y Saesneg, er ein bod ni yn derbyn llawer llai o gyllid!

- Dysgu sgiliau newydd

Mae pob un ohonom wedi cael ein gorfodi i chwilio am ffyrdd newydd o weithio ac mae'r pwyslais ar ddysgu ar-lein wedi bod yn heriol, ond hefyd yn fuddiol. Yn ôl ym mis Ebrill nid oedd yr un ohonom wedi clywed am Zoom, a phrin iawn oedd ein defnydd ni o raglenni fel Quizlet neu Kahoot oherwydd cyfyngiadau'r we yn y canolfannau lle cynhelir y dosbarthiadau. Erbyn hyn rydyn ni wedi canfod ein ffordd o gwmpas y byd newydd. Trwy ddysgu ar ein pennau ein hunain, trwy ofyn i'n gilydd a thrwy ymchwilio rydym wedi mabwysiadu sgiliau newydd ac wedi dechrau defnyddio deunyddiau sydd yn addas ar gyfer byd addysg newydd.

- Gweithio ar y cyd

Oherwydd bod llai o bwyslais ar ffiniau daearyddol rydym wedi gallu dod at ein gilydd mewn ffordd nad oedd yn bodoli o'r blaen. Mae hyn wedi golygu bod y rhai

oedd ar y tu allan oherwydd pellteroedd teithio o fewn yr Ariannin wedi gallu dod i gysylltiad gyda'u cyd-ddysgwyr neu eu cyd-diwtoriaid ac mae hyn o fudd i bawb.

- Ymroddiad tiwtoriaid lleol

Mae'r mwyafrif o diwtoriaid lleol yn cyfrannu at y Cynllun oherwydd eu cariad at yr iaith a'r diwylliant ac nid oherwydd y gydnabyddiaeth ariannol! Mae'r mwyafrif ohonynt wedi parhau gyda'r cyrsiau roeddent yn eu haddysgu gan addasu i'r angen i weithio ar-lein a gyda thechnoleg. Mae ambell i grŵp wedi diflannu oherwydd demograffeg oedran efallai ac amharoddrwydd i addasu at ddefnyddio'r dechnoleg, ond ar y cyfan mae'r gwaith wedi parhau, boed hynny gyda phlant yn yr ysgolion neu oedolion yn allgyrsiol.

- Rhannu syniadau

Mae'r swyddogion wedi bod yn dda am rannu eu profiadau ac os oes rhywbeth wedi gweithio yn dda mewn dosbarth, maent wedi bod yn barod i'w rannu gyda'i gilydd ac aelodau eraill y tîm; mae hyn yn rywbeth nad oedd yn digwydd bob tro yn y gorffennol gan fod pob tiwtor ynghlwm wrth eu hardaloedd daearyddol.

- Cyrsiau newydd

Mae nifer o gyrsiau newydd wedi dechrau oherwydd ei bod yn bosib dysgu ar-lein ac mae rhai ohonynt yn cynnwys nifer dda o ddysgwyr. Y lefel Mynediad yw'r mwyaf poblogaidd i ddechreuwyr, ond mae grwpiau sgwrsio wedi bod yn boblogaidd hefyd gyda sawl myfyriwr yn awyddus i beidio a cholli ei iaith yn ystod y sefyllfa anodd sydd ohoni.

## **Elfennau negyddol 2021**

Rhaid cydnabod nad oedd popeth yn felys wrth fyw trwy flwyddyn mor heriol a rhaid cydnabod bod elfennau negyddol wedio amharu ar yr ymgais i ddal ymlaen i'r eithaf.

- Methu defnyddio sgiliau'r tair swyddog i'r eithaf  
Mae gan y tair sgiliau gwahanol oedd yn gweddu i'r ardaloedd lle y cawsant eu hanfon, ond yn anffodus digwyddodd pethau sydd wedi golygu nad oedd yn bosib defnyddio eu sgiliau i'w llawn botensial.
- Niferoedd is

Rhywbeth i'w ddathlu ers sawl blwyddyn ydy'r tyfiant yn y niferoedd sydd yn dysgu Cymraeg yn Y Wladfa a hynny yn bennaf oherwydd y twf yn yr ysgolion dwyieithog (Sbaeneg-Cymraeg) yn Y Wladfa. Canran gweddol fechan o oedolion sydd wrthi yn dysgu ail iaith ac eleni mae llai ohonynt wedi dal ati oherwydd anallu neu amharoddrwydd i addasu i alwadau defnyddio technoleg. Mae rhai yn yr oedran sydd ddim yn ymgymryd â newid cystal ac felly maent wedi peidio mynychu dosbarthiadau ar-lein tra bod eraill yn teimlo ei bod hi'n amhosib parhau gyda dysgu iaith tra maent adre gyda'r teulu. Mae rhai heb gysylltiad gwe dibynadwy yn y tŷ. Mae hi hefyd yn deg dweud bod rhai wedi ffeindio'r sefyllfa yn fwy addas ar gyfer astudio iaith ac wedi manteiso ar yr

amser ychwanegol sydd ganddynt oherwydd bod dim angen teithio i'r gwaith ac ati.

- Effaith dysgu ail iaith ar blant a phobl ifanc

Pan ddechreuwyd gweld achosion o COVID-19 yn yr Ariannin, cauwyd pethau yn sydyn a dechreuodd cyfnod clo llym iawn. Ers mis Ebrill, ni chynhaliwyd dosbarthiadau wyneb yn wyneb mewn ysgolion, er bod y tair ysgol ddwyieithog wedi parhau drwy gynnal dosbarthiadau ar-lein. Gelyn hyn ydy cysylltiadau gwan i'r we a chyflymder lawrlwytho isel yn y dalaith sydd yn ansefydlog ar y gorau. Mewn rhai cartrefi dim ond un cyfrifiadur sydd ar gael a rhaid i frodyr a chwiorydd ei rannu gyda'r rhieni sydd yn gweithio oddi cartref.

Ar y dechrau roedd yr athrawon a'r plant yn ymbalfalu yn y tywyllwch gan eu bod nhw yn gorfod wynebu sefyllfa na chawson nhw mo'u hyfforddi i'w hwynebu, ond gan fod athrawon da yn greadigol, dechreuwyd cael trefn ar bethau gam wrth gam. Yn anffodus, mae ymchwil yn dangos nad yw plant bach yn cael cymaint o lwyddiant wrth ddysgu ar-lein a'i bod yn ffordd anaddas i'w haddysgu, tra bod pobl yn eu harddegau ac oedolion yn cael budd o wersi ar-lein. Felly, anwastad iawn ydy'r niferoedd sydd wedi bod yn mynychu dosbarthiadau ar-lein a her arall yw nad ydy'r teuluoedd eu hunain yn gallu siarad yr iaith rydym yn ceisio ei haddysgu ac felly mae'r plant wedi colli blwyddyn o'r iaith Gymraeg.

- Diffyg ymweliadau o Gymru

Fel rheol mae nifer o ymweliadau gan grwpiau o Gymru, gan gynnwys teithwyr yn gyson trwy'r flwyddyn, athrawon sydd yn dod i weithio yn y tair ysgol ddwyieithog, swyddogion o dan nawdd y Cynllun, myfyrwyr israddedig o dan nawdd banc Santander a chriw yr Urdd. Dim ond un o'r swyddogion wnaeth aros yn Y Wladfa i weithio eleni. Mae eu presenoldeb yn ddolen bwysig rhwng Y Wladfa a Chymru ac maent yn tynnu sylw at y cysylltiadau sydd yn bodoli gan roi rheswm dilys dros ddysgu Cymraeg i'r myfyrwyr, yn hen ac ifanc. Pwy a wŷr pryd fydd yn bosib aildechrau'r ymweliadau hyn.

- Diffyg ysgoloriaethau

Am resymau amlwg eleni, nid yw wedi bod yn bosib i ddysgwyr nac athrawon Y Wladfa deithio i Gymru er mwyn gloywi iaith a dysgu sgiliau addysgu newydd. Mae hyn hefyd yn elfen bwysig yng ngwaith y Cynllun

## Pwyso a Mesur

Bydd 2020 yn flwyddyn fydd yn aros yn y cof, nid yn unig oherwydd effeithiau negyddol y pandemig sydd wedi dominyddu'r byd. Nid yw'n hawdd dysgu nac addysgu ail iaith ble bynnag y byddwch, ond mae ymroddiad Cymru a'r Wladfa dros ddysgu'r Gymraeg eleni wedi bod yn ddim byd llai na gwrth! Rydym yn ymwybodol mai canran fechan o'r boblogaeth sydd yn gweithio er mwyn yr iaith a'r diwylliant a'u bod nhw yn cael effaith anhygoel trwy gyfrwng eu hymroddiad a'u dyfalbarhad. Nid yw gem yn amlwg tan iddi gael ei gloywi ac mewn ffordd mae eleni wedi bod yn brawf o werth y Cynllun. Dylen ni i gyd fod yn falch o'r rhan fechan rydym wedi ei chwarae er mwyn sicrhau bod digon o nodweddion cadarnhaol i'w dathlu wrth nesáu at ddiwedd y flwyddyn.

